

Drwy e-bost



16/04/2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Cyfle ymgysylltu cyn tendro ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3)

Ar 23 Chwefror 2021 cyhoeddwyd [Hysbysiad o Fwriad i Gyfyngu](#) mewn perthynas â chymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3). Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau bellach wedi mynd heibio ac rydym yn awyddus i ymgysylltu â chyrff dyfarnu a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan mewn proses gaffael i sefydlu contract consesiwn i ddatblygu a dyfarnu'r cymhwyster hwn. Byddai cytundeb o'r fath yn caniatáu i'r cynigydd llwyddiannus ddatblygu'r cymhwyster hwn yng Nghymru ar sail llwyr-gyfyngedig, ar gyfer rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus, am gyfnod penodol o amser.

Hoffem siarad â chyrff dyfarnu a allai fod â diddordeb mewn datblygu'r cymhwyster hwn. Bydd y wybodaeth a gasglwn yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu manyleb y contract a fyddai'n cael ei defnyddio os penderfynwn fwrw ymlaen â'r broses gaffael.

Rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) o'n bwriad i dendro ar GwerthwchiGymru a Canfod Tendr:

[Gweler hysbysiad - GwerthwchiGymru \(gov.wales\)](#)

Byddwn yn trefnu cyfarfodydd Teams gyda darpar gynigwyr i'w cynnal rhwng 28 Ebrill a 14 Mai. Bydd y cyfarfodydd ar ffurf trafodaeth strwythuredig gyda ni (a elwir yn aml yn 'ymgysylltu cyn tendro'). Bydd hyn yn cynnwys gofyn cyfres o gwestiynau i gyfranogwyr y byddwn yn eu darparu ymlaen llaw. Bydd yr ymatebion yn anffurfiol

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

ac ni fyddant yn cael eu hystyried mewn unrhyw broses gaffael ddilynol nac yn rhan ohoni.

Bydd cwestiynau a ofynnir i ni gan gyfranogwyr yn ystod y ddeialog yn cael eu casglu fel y byddwn, pan fyddwn mewn sefyllfa i ymateb, yn cyhoeddi un set o wybodaeth i bawb sydd â diddordeb ar yr un pryd.

Os oes gan eich sefydliad ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad cyn tendro hwn â ni, e-bostiwch **procurement@qualificationswales.org** i drefnu cyfarfod. Rhowch **'Ymgysylltu cyn tendro Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru'** ym maes pwnc yr e-bost, nodwch eich diddordeb, ac enwau, teitlau swyddi a chyfeiriadau e-bost y rhai a fydd yn cymryd rhan o'ch sefydliad. Cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i sicrhau eich slot.

Dim ond cyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru fydd yn gallu cyflawni'r contract hwn felly mae'n rhaid i bartïon â diddordeb naill ai fod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig neu sicrhau cydnabyddiaeth gan Cymwysterau Cymru o fewn cyfnod sy'n dechrau o'r hysbysiad o fwriad i ddyfarnu contract. Bydd y cyfnod ar gyfer sicrhau cydnabyddiaeth yn cael ei gadarnhau yn yr hysbysiad contract os byddwn yn mynd ymlaen i dendro.

Ni fydd cyfranogwyr yn yr ymgysylltu cyn tendro wedi ymrwmo i gymryd rhan mewn unrhyw ymarfer tendro dilynol. Os awn ymlaen i'r broses gaffael ffurfiol, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad arall ar GwerthwchiGymru a Canfod Tendr (ym mis Mehefin 2021, yn ôl y disgwyl) a byddwn yn rhedeg y broses gan ddefnyddio'r system dendro electronig eDendroCymru (<https://etenderwales.bravosolution.co.uk>). Bydd sefydliadau cymwys nad ydynt yn cymryd rhan yn yr ymgysylltu cyn tendro yn dal i allu cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer tendro dilynol.

Crynodeb o'r camau gweithredu:

Cyn dydd Gwener 30 Ebrill 2021 ond yn gynt os oes modd: cadarnhewch fod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu cyn tendro hwn drwy e-bostio procurement@qualificationswales.org â'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i drefnu cyfarfod, byddwn yn anfon y cwestiynau, y nodyn briffio, manyleb ddrafft y contract, y meini prawf cymeradwyo cymwysterau drafft a'r telerau ac amodau a fydd yn berthnasol i'r contract consesiwn, er mwyn i chi adolygu a pharatoi eich ymatebion cyn eich cyfarfod â ni.

Rhwng 28 Ebrill a 14 Mai: byddwn yn trefnu cyfarfodydd Teams ar wahân gyda phob corff dyfarnu i drafod y cwestiynau.

Yn gywir

Elizabeth Frizi
Pennaeth Caffael